Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Manylion Cyswllt a Sylwadau Cryno**

| | **Manylion Personol** | **Manylion yr Asiant (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|
| Enw: | BERYL GRIFFITHS | |
| Sefydliad (os yn berthnasol): | | |
| Cyfeiriad: | 27 GORWEL<br>LLANFAIRFECHAN | |
| Cod post: | LL33 ODT | |
| Rhif Ffôn: | [redacted] | |
| E-bost: | | |

Hoffech chi dderbyn gwybodaeth am baratoadau'r Cynllun? Hoffwn

Dull cysylltu a ffefrir: e-bost

Hoffech chi dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg? CYMRAEG.

Darparwch grynodeb o'ch sylwadau isod (hyd at 100 gair). Mae'n bwysig eich bod yn darparu crynodeb er mwyn cofrestru'ch sylwadau.

**Crynodeb o'ch sylwadau (hyd at 100 gair):**

Fy nghonsyrn pennaf yw yr Iaith Gymraeg a'r ffordd o fyw Cymreig yn y Pentref. Ers Symud yma i fyw yn 1969 rwyf wedi tristhau wrth weld y dirywiad yn yr Iaith/Diwylliant Cymreig a'r Prif reswm am hyn yw'r mewnlifiad i'r Stadau newydd o dai sydd wedi eu datblygu yma yn y blynyddoedd diwethaf.

# Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

## Strategaeth a Ffefrir: Gweledigaeth ac Amcanion

**Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i llunio ar sail tystiolaeth a gasglwyd ac ar ôl deall y materion sy'n effeithio ar Gonwy. Mae'r rhain wedi'u defnyddio i greu gweledigaeth newydd a 15 o amcanion.**

Oes gennych chi unrhyw sylw am y weledigaeth a'r amcanion arfaethedig? Nodwch eich sylwadau isod.

Yn eich pamffled C.D.LL. Tud. 3 un o'r gweledigaethau a nodir yw – Conwy lle mae'r Iaith Gymraeg yn ffynnu – ni allaf weld sut mae'r Cynllun yma yn mynd i wireddu hyn. Rwyf wedi gwirfoddoli hefo Menter Iaith Conwy ers blynyddoedd – felly, yn hollol ymwybodol o'r frwydr ddyddiol i gadw'r Iaith ar wefusau'r plant.

Ynglyn â'r pwynt am Dai Fforddiadwy – mae hwn yn derm hawdd i'w gofnodi ond yn andros o broblem i'w gyflawni. Pwy sydd yn mynd i blismona hyn? Pwy sydd i ddweud pwy fydd yn cael prynu'r tai yma? Mae angen llawer iawn iawn mwy o ymchwil i hyn.

Ynglyn â'r pwynt o Sir Conwy yn gwarchod yr amgylchfyd a newid hinsawdd – Sut ar y ddaear y mae adeiladu 4000 o dai ar dir amaethyddol gyda Choedydd a bywyd gwyllt cynhenid yn gwneud unrhyw fath o synnwyr? Hoffwn gael gwybod!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Lefel Twf Arfaethedig**

**Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn darparu ar gyfer lefel twf sy'n cynnwys 12-14 ha o dir cyflogaeth i greu 1800 o swyddi newydd. Cefnogir hyn gan dir ar gyfer 5,150 o dai newydd.**

Oes gennych chi unrhyw sylw am y lefelau twf arfaethedig?
Nodwch eich sylwadau isod.

Yn eich pamphled C.D.Ll. Tud 9. Llanfairfechan dywedir na fydd 0% o'r cynllun ar gyfer datblygu swyddi yn lleol – felly mae'r term 'Conwy hefo datblygiad economaidd, mewn ardal wledig' yn amherthnasol.

Eich canran ar gyfer tai fforddiadwy yw 35% – hoffwn wybod sut y cyrhaeddwyd at y ffigwr yma. Cofnodwyd yn eich llyfryn C.D.Ll. ichi wrando ar safbwynt cymunedau, datblygwyr ac eraill ynglyn â hyn. Holais amryw o'm cymdogion/ffrindiau ac roedd pawb yn gytûn na fu neb yn cysylltu â hwy ynglŷn â hyn.

Rwyf yn sylweddoli fod twf yn anochel – dyma natur cymdeithas – ond mae angen gwir ymchwil ar faint y twf yma!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Y Strategaeth Ofodol Arfaethedig**

**Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn edrych ar ddatblygu'r Aneddiadau trefol mwy cynaliadwy sydd â gwasanaethau a phentrefi Haen 1 o fewn Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol a Chanolfannau Gwasanaeth Allweddol o fewn Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig. Bydd twf lleol ac arallgyfeirio mwy cyfyngedig yn cael ei hyrwyddo mewn aneddiadau gwasanaethau llai. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cynnig creu Ardal Adfywio a Gwella Dwyreiniol newydd i gydnabod y cyfyngiadau lefel uchel a geir (e.e. llifogydd) yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol.**

Oes gennych chi unrhyw sylw am y strategaeth ofodol arfaethedig? Nodwch eich sylwadau isod.

Teimlaf nad yw'r gosodiad yma yn berthnasaf i Lanfairfechan.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Oes gennych chi unrhyw sylw am y polisïau strategol arfaethedig? Nodwch eich sylwadau isod.

Mae'r gosodiad yma yn un sy'n gallu cyfeirio at nifer o Strategaethau e.e.

Strategaeth I - Syrjyn doctor / problem cyflogi doctoriaid a nifer y cleifion sydd angen gweld doctor. Traffic o amgylch y Feddygfa.

St. 2 Llifogydd - problem llifogydd yn yr ardal lle bwriedir adeiladu'r tai wedi bod yno ers inni symud i fyw yma yn 1969

A ddylid cynnwys unrhyw bolisi arall? Nodwch eich sylwadau isod.

Angen Polisi pendant yn y Sir ynglŷn â dyfodol yr Iaith Gymraeg. Mae'n rhaid cael cynllun hollol bendant i warchod a hyrwyddo'r Iaith. Onid nod ein Cynulliad Cenedlaethol yw cael ychwaneg o Siaradwyr Cymraeg - wedi'r cyfan - mae gennym Ddeddf Iaith yng Nghymru - mae gan Sir Conwy ffordd bell iawn i fynd.

A beth am y gofynion o'r ddeddf - Safon byw y Cenedlaethau i'r Dyfodol (Cymru) Deddf 2015 - sut mae hyn yn bwydo i'r Cynllun yma.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Strategaeth a Ffefrir: **Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd**

Oes gennych chi unrhyw sylw am yr Arfarniad o Gynaliadwyedd? Ceir fersiynau cryno ar wefan y Cyngor. Nodwch eich sylwadau isod.

Wedi methu cael y fersiynau yma ar wefan y Cyngor.

Oes gennych chi unrhyw sylw am yr Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd? Nodwch eich sylwadau isod.

Fel uchod - ond gwarchod ein Cynefinoedd

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol**

Os hoffech chi wneud sylw ar y Safleoedd Ymgeisiol arfaethedig, gwnewch hynny isod. **Dylai pob sylw gynnwys cyfeirnod y safle dan sylw.**

Yn lle cyfeirnod - rwyf yn cyfeirio at Llanfairfechan yn benodol.

Yn fy marn i nid dyma'r safle i godi cynifer o dai / ysgol / etc. 'Rwyf yn ymwybodol fod y perchen tir yn fodlon (neu wedi) gwerthu'r tir ar gyfer datblygiad – ond onid yw hyn yn annheg - fod un pentref (sef Llanfairfechan) yn gorfod ysgwyddo'r baich o gael datblygiad o 400 o dai oherwydd nad oes unrhyw dir-feddiannwr mewn ardaloedd eraill (megis Penmaenmawr a Dwygyfylchi) yn fodlon gwerthu tir.

Teimlaf hefyd nad nid hwn yw'r safle delfrydol ar gyfer adeiladu ysgol - mae'r bosibl adeiladu ysgol ar yr un safle â'r Ysgol bresennol - edrychwch ar Dolgarrog.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Unrhyw Sylw Arall**

Oes gennych chi unrhyw sylw arall yr hoffech chi ei wneud ar y Strategaeth a Ffefrir? Nodwch eich sylwadau isod.

Yn ôl eich Pamphledyn C.D.Ll. Tud 2. rydym ar hyn o bryd ar Cam 5. Sut ar y ddaear y cyrhaeddon yma mor sydyn? Er imi holi a holi - doedd neb yn gallu rhoi ateb clir ynglyn â hyn.

**Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033**

**Strategaeth a Ffefrir**

---

Diolch i chi am eich sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu arnoch chi angen cymorth gydag unrhyw beth, mae croeso i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar: 01492 575461 neu cdll ldp@conwy.gov.uk

**Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am y mannau y gallwch chi archwilio'r Strategaeth a Ffefrir ac am y sesiynau galw heibio a gynhelir yn y Fwrdeistref Sirol.**

Dylech anfon eich sylwadau cyn 5pm ar **20/09/2019**.

**Mae'n bosibl na fyddwn yn ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn.**